

Tasg Ymresymu Rhifyddol (gweithdrefnol)

Cyfnod Allweddol 2

Cinio Gwadd

Mae Bethan a thri o'i ffrindiau'n cael cinio gwadd yn nhŷ Bethan. Mae angen rhai cynhwysion arnyn nhw ac maen nhw'n mynd i siopa. Mae gan Bethan £10 i'w gwario. Dyma'r rhestr brisiau yn siop ffrwythau a llysiau leol Bethan:

Eitem	Cost
Moron	80c y kg
Tatws	£1.20 y kg
Orennau	30c yr un
Afalau	25c yr un
Tomatos	£1.60 y kg
Letys	60c yr un
Winwns/Nionod	70c y kg
Madarch	£1.20 y twba
Mefus	£1.00 y pecyn

1. Mae angen 2kg o datws a 1kg o domatos ar Bethan. Cyfrifwch y gost.
2. Hefyd mae angen $\frac{1}{2}$ kg o foron, twba o fadarch a 2kg o winwns/nionod ar Bethan. Cyfrifwch gost y rhain.
3. Mae Bethan yn penderfynu prynu pecyn o fefus a thri oren a dau afal hefyd. Cyfrifwch gost y ffrwythau hyn.



4. Faint fydd rhaid i Bethan ei dalu i gyd?

5. Mae Bethan yn talu gyda phapur £10. Faint o newid dylai hi ei gael?

6. Mae ffrindiau Bethan yn teimlo y dylen nhw rannu cost y bwyd. Faint bydd rhaid i'r pedwar ffrind ei dalu os ydyn nhw'n rhannu cost y bwyd yn gyfartal?